# Hysbysiad casglu i Fyfyrwyr HESA

Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch Cyfyngedig (HESA) yw'r corff sy'n gyfrifol am gasglu a dosbarthu gwybodaeth am addysg uwch yn y DU a dyma'r corff data dynodedig ar gyfer Lloegr (gweler https://www.hesa.ac.uk/about am fwy o wybodaeth). Mae HESA yn Rheolydd ar eich gwybodaeth.

Mae'r cyfeiriad at "eich darparwr" yn cyfeirio at y darparwr addysg uwch rydych chi'n ei fynychu. Mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud â gwybodaeth amdanoch chi a fydd yn cael ei chasglu gan eich darparwr a'i throsglwyddo i HESA ac i sefydliadau eraill fel y disgrifir isod.

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i flwyddyn academaidd 2021/22. Mae hefyd yn berthnasol i'r data a gasglwyd mewn blynyddoedd academaidd blaenorol a'u cadw gan HESA. Edrychwch ar *Categorïau o wybodaeth a gyflwynir i HESA, gan gynnwys Categorïau Arbennig o ddata*, isod, i gael mwy o wybodaeth am y categorïau o ddata fydd yn cael eu casglu yn 2021/22 ac sydd wedi'u casglu mewn blynyddoedd blaenorol.

**Adolygu a Diweddaru'r Hysbysiad hwn**

Mae'r hysbysiad hwn yn datgan gwybodaeth am HESA a Rheolyddion eraill eich data, sut a pham maent yn prosesu eich data, y sylfeini cyfreithiol ar gyfer y prosesu hwn, a'ch hawliau o dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Caiff yr hysbysiad hwn ei adolygu'n rheolaidd a chaiff ei ddiweddaru, er enghraifft pan fydd sefydliadau'n newid eu henw, neu i egluro sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio. Gellir ei ddiweddaru ar unrhyw adeg abydd y fersiwn diweddaraf bob amser ar gael i chi yn https://www.hesa.ac.uk/fpn.

**Cyflwyno eich gwybodaeth i HESA**

Bydd data amdanoch chi'n cael eu cyflwyno i HESA at y dibenion a nodir isod. Defnyddir yr holl wybodaeth gan gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data.

Bob blwyddyn bydd eich darparwr yn anfon rhywfaint o'r wybodaeth mae'n ei chadw amdanoch chi i HESA ("eich gwybodaeth HESA"). Mae HESA yn ffynhonnell ddata swyddogol am addysg uwch yn y DU. Mae HESA yn elusen gofrestredig ac yn gweithredu ar sail ddielw.

Mae eich gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio ar gyfer amrywiaeth o ddibenion gan HESA yn ogystal â thrydydd partïon fel y disgrifir isod. Efallai y bydd HESA yn codi tâl ar sefydliadau eraill y mae'n darparu gwasanaethau a data iddynt. Gallai'r defnydd o'ch gwybodaeth HESA gynnwys cysylltu rhannau ohoni â gwybodaeth arall, fel y disgrifir isod. Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei darparu i HESA yn cael ei chadw am gyfnod amhenodol at ddibenion ymchwil ystadegol. Ni fydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau awtomataidd amdanoch chi. Bydd i ba raddau y bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio at bwrpasau 4 i 5 ac 8 yn amrywio.

Mae HESA yn prosesu gwybodaeth am wladolion y DU a gwladolion eraill, gan gynnwys gwladolion yr UE. Yn unol â hynny, rhaid i bob defnydd a wneir o wybodaeth HESA gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ("GDPR") (gan gynnwys fersiynau'r DU a'r UE) aDeddf Diogelu Data 2018.

Mae HESA yn datblygu system newydd a model data newydd ar gyfer casglu gwybodaeth am fyfyrwyr drwy raglen o'r enw Data Futures. Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen waith hon ar gael yma: https://www.hesa.ac.uk/innovation/data-futures Os caiff eich gwybodaeth HESA ei phrosesu fel rhan o'r rhaglen hon, bydd yn cael ei defnyddio gan HESA a'ch darparwr i gymryd rhan mewn peilot o'r system newydd a / neu i wirio manwl gywirdeb y model data newydd. Yn benodol, bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio gan HESA, eich darparwr, a'r cyrff cyllido a rheoleiddio addysg uwch sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Data Futures:

- er mwyn gwerthuso'r model data newydd, y data i'w defnyddio yn y system newydd a'u cynhyrchu ganddi; ac
- er mwyn gwerthuso swyddogaeth y system (gan gynnwys sut mae'r system newydd yn rhyngweithio â systemau cyfranogwyr peilot a gyda systemau gwaddol presennol HESA).

Os defnyddir eich gwybodaeth HESA fel rhan o'r rhaglen Data Futures, bydd yn cael ei dileu o'r rhaglen honno o fewn 6 mis i ddiwedd y cyfnod profi perthnasol.

Gan mai pwrpas y Rhaglen Data Futures yw galluogi HESA i gael platfform sy'n addas ar gyfer swyddogaethau cyhoeddus y sector addysg uwch, mae'r seiliau cyfreithlon ar gyfer y prosesu hwn i'w gweld ym Mhwrpas 1 (isod). Gwneir prosesu sy'n ymwneud â mudo data a gedwir o fewn cofnodion parhaol HESA i'r model data Data Futures newydd o dan Bwrpas 8.

**Y categorïau o wybodaeth sy'n cael eu cyflwyno i HESA, gan gynnwys Categorïau Arbennig o ddata**

Mae HESA yn casglu data am nodweddion personol myfyrwyr a gwybodaeth am eu hastudiaethau a'u cymwysterau. Gallai hyn gynnwys manylion sensitif am fywydau personol myfyrwyr er mwyn eu defnyddio i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'r data mae eich darparwr yn eu cyflwyno i HESA yn cynnwys manylion am y cwrs rydych chi'n ei astudio, acunrhyw gymwysterau a ddyfarnwyd i chi yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae hefyd yn cynnwys manylion amdanoch chi - fel eich enw a'ch dyddiad geni, eich cymwysterau blaenorol, a ble oeddech chi'n byw cyn dechrau eich cwrs ac yn ystod eich cwrs.

Caiff gwybodaeth am eich iechyd, statws anabledd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd neu grefydd ei hystyried fel 'Data categorïau arbennig' o dan y GDPR. Os yw eich darparwr yn rhoi'r wybodaeth hon i HESA, byddyn cael ei chynnwys yn eich gwybodaeth HESA. Mae'r wybodaeth hon yn angenrheidiol ar gyfer monitro cyfle cyfartal a chael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998 neu ddeddfwriaeth ddilynol gyfatebol, neu at ddibenion ymchwil eraill sy'n dod o dan Erthygl 9(2)(j) GDPR. Hefyd caiff yr wybodaeth hon ei phrosesu ar gyfer ystadegau ac ymchwil ystadegol. Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau amdanoch chi.

Defnyddir rhywfaint o wybodaeth arall i alluogi ymchwil i ddarparu mynediad teg i addysg uwch, er enghraifft gwybodaeth ynghylch a ydych chi wedi gadael gofal. Os yw eich darparwr yn Lloegr efallai y bydd eich gwybodaeth HESA yn cynnwys manylion am unrhyw gefnogaeth ariannol rydych chi'n ei derbyn gan eich darparwr addysg uwch.

Bydd rhestr lawn o'r eitemau data a allai gael eu cynnwys yn eich gwybodaeth HESA ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 ar gael yma o fis Hydref 2021 ymlaen: https://www.hesa.ac.uk/collection/c21051/.

- Nodwch nadyw'r holl eitemau data'n cael eu casglu ar gyfer pob myfyriwr.

Os oeddech chi'n fyfyriwr mewn blwyddyn academaidd flaenorol, mae rhestr lawn o eitemau data a allai gael eu cynnwys yn eich gwybodaeth HESA i'w gweld isod. Sylwch fod blynyddoedd academaidd niferus yn debygol o fod yn berthnasol i'ch gwybodaeth HESA gan ddibynnu ar hyd eich cwrs (cyrsiau) cychwynnol ac unrhyw astudiaethau pellach.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth i weld pa gofnodion y gallai eich gwybodaeth HESA fod wedi'i chynnwys ynddynt, cysylltwch â data.protection@hesa.ac.uk i gael arweiniad.

| Cofnod Myfyriwr | Cofnod Amgen Myfyriwr (a oedd yn cael ei adnabod fel Cofnod Myfyriwr AP) | Cofnod Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) |
|---|---|---|
| • Myfyriwr 20/21<br>• Myfyriwr 19/20<br>• Myfyriwr 18/19<br>• Myfyriwr 17/18<br>• Myfyriwr 16/17<br>• Myfyriwr 15/16<br>• Myfyriwr 14/15<br>• Myfyriwr 13/14<br>• Myfyriwr 12/13<br>• Myfyriwr 11/12<br>• Myfyriwr 10/11<br>• Myfyriwr 09/10<br>• Myfyriwr 08/09<br>• Myfyriwr 07/08<br>• Myfyriwr 06/07<br>• Myfyriwr 05/06<br>• Myfyriwr 04/05<br>• Myfyriwr 03/04<br>• Myfyriwr 02/03<br>• Myfyriwr 01/02<br>• Myfyriwr 00/01<br>• Myfyriwr 99/00<br>• Myfyriwr 98/99<br>• Myfyriwr 97/98<br>• Myfyriwr 96/97<br>• Myfyriwr 95/96 | • Myfyriwr AP 20/21<br>• Myfyriwr AP 19/20<br>• Myfyriwr AP 18/19<br>• Myfyriwr AP 17/18<br>• Myfyriwr AP 16/17<br>• Myfyriwr AP 15/16<br>• Myfyriwr AP 14/15 | • AGA 21/22<br>• AGA 20/21<br>• AGA 19/20<br>• AGA 18/19<br>• AGA 17/18<br>• AGA 16/17<br>• AGA 15/16<br>• AGA 14/15<br>• AGA 13/14<br>• AGA 12/13<br>• AGA 11/12<br>• AGA 10/11<br>• AGA 09/10<br>• AGA 08/09 |

| | | |
|---|---|---|
| • Myfyriwr 94/95 | | |

**Pwrpas 1 – Data a enwir i'w defnyddio ar gyfer swyddogaethau cyhoeddus gan gyrff cyllido a rheoleiddio AU**

Mae eich gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio gan gyrff cyllido a rheoleiddio AU (sy'n gofyn i HESA ei chasglu) ar gyfer eu swyddogaethau statudol a/neu gyhoeddus, gan gynnwys at ddibenion cyllid, rheoleiddio a llunio polisïau. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei darparu drwy gyfeirio at eich enw ond ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau amdanoch chi.

Mae HESA yn rhannu eich gwybodaeth HESA gyda chyrff cyllido a rheoleiddio AU sy'n gofyn i HESA ei chasglu ac y mae ei hangen arnynt i gyflawni eu swyddogaethau statudol a/neu gyhoeddus. Mae'r broses hon o rannu data'n cael ei chynnal er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i HESA a'r cyrff cyllido a rheoleiddio. Mae HESA wedi cael ei benodi fel y corff data dynodedig ar gyfer Lloegr o dan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017. Dyma'r cyrff cyllido a rheoleiddio AU:

- Lloegr - Office for Students (sy'n ystyried beth fyddai'n ddefnyddiol ei gasglu ar gyfer rhannu gydag UK Research and Innovation a'r Ysgrifennydd Gwladol)
- Cymru – Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Yr Alban – Cyngor Cyllido'r Alban
- Gogledd Iwerddon – Adran yr Economi

Bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei rhannu â'r sefydliadau hyn fel rhan o set ddata fawr sy'n cynnwys gwybodaeth debyg am bobl eraill sydd wedi dilyn cyrsiau addysg uwch yn y DU. Mae'r sefydliadau hyn yn Rheolyddion ar eich gwybodaeth HESA hefyd. Mae hyn yn golygu eu bod yn penderfynu drostynt eu hunain sut maent yn ei defnyddio, a gall hyn gynnwys cyhoeddi ystadegau a rhannu'r wybodaeth â thrydydd partïon, fel cyrff eraill y llywodraeth neu gyrff cyhoeddus neu sefydliadau eraill o'r math sydd wedi'i restru mewn mannau eraill yn yr hysbysiad casglu hwn. Fodd bynnag, bydd pob defnydd a wneir o'ch gwybodaeth HESA yn cael ei wneud yn unol â'r dibenion a nodir yn yr hysbysiad casglu hwn a bydd wedi'i gynnwys yn y trefniadau rhannu data â HESA.

Ni fydd y sefydliadau hyn yn defnyddio'r data er mwyn eich adnabod chi fel unigolyn nac i wneud penderfyniadau amdanoch chi. Efallai y bydd y sefydliadau hyn yn cadw gwybodaeth HESA am gyfnod amhenodol at ddibenion ystadegol ac ymchwil.

**Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 1**

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 1 – mae'r rhain yn cynnwys defnyddio data personol gan HESA a'r cyrff cyllido a rheoleiddio AU fel Rheolyddion data:

Mae'n rhaid prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 1 er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (gweler Erthygl 89 GDPR).

Hefyd efallai y bydd rhaid prosesu er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol sy'n berthnasol i'r Rheolydd (gweler Erthygl 6(1)(c) GDPR).

Mae'n rhaid prosesu Categorïau Arbennig o ddata at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) yn seiliedig ar y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998, Deddf yr Economi Ddigidol 2017 neu ddeddfwriaeth ddilynol gyfatebol, neu at y dibenion ymchwil eraill sy'n dod o dan Erthygl 9(2)(j) GDPR.

Hefyd gall prosesu Categorïau Arbennig o ddata fod yn angenrheidiol am resymau'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 neu ddeddfwriaeth ddilynol gyfatebol (gweler Erthygl 9(2)(g) GDPR).

**Pwrpas 2 – Data a enwir i'w defnyddio ar gyfer swyddogaethau cyhoeddus gan awdurdodau cyhoeddus**

Mae HESA yn gweithredu fel canolfan wybodaeth i ddarparu data ac ystadegau am addysg uwch. Mae gan y cyrff a ddisgrifir ym Mhwrpas 1 (uchod) bŵer cyfreithiol neu reoleiddiol i ofyn am wybodaeth gan rai darparwyr addysg uwch, ond mae awdurdodau cyhoeddus eraill yn defnyddio eich gwybodaeth HESA hefyd ar gyfer eu swyddogaethau statudol a/neu gyhoeddus, gan gynnwys at ddibenion cyllid, rheoleiddio a llunio polisïau.

**Ystadegau a data addysg**

Mae HESA hefyd yn gweithredu fel canolfan wybodaeth i ddarparu gwybodaeth am addysg uwch. Yn Lloegr, caiff hyn ei wneud y tu allan i'w weithgareddau fel corff data dynodedig. Mae HESA yn rhannu eich gwybodaeth HESA ag awdurdodau cyhoeddus y mae ei hangen arnynt i gyflawni eu swyddogaethau statudol a/neu gyhoeddus. Mae'r broses hon o rannu data'n cael ei chynnal er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i HESA a'r awdurdodau cyhoeddus. Bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei rhannu â'r sefydliadau hyn fel rhan o set ddata fawr sy'n cynnwys gwybodaeth debyg am bobl eraill sydd wedi dilyn cyrsiau addysg uwch yn y DU.

Mae'r sefydliadau hyn yn Rheolyddion ar eich gwybodaeth HESA hefyd. Mae hyn yn golygu eu bod yn penderfynu drostynt eu hunain sut maent yn ei defnyddio, a gall hyn gynnwys cyhoeddi ystadegau a rhannu'r wybodaeth â thrydydd partïon, fel cyrff eraill y llywodraeth neu gyrff cyhoeddus neu sefydliadau eraill o'r math sydd wedi'i restru mewn mannau eraill yn yr hysbysiad casglu hwn. Fodd bynnag, bydd pob defnydd a wneir o'ch gwybodaeth HESA yn cael ei wneud yn unol â'r dibenion a nodir yn yr hysbysiad casglu hwn a bydd wedi'i gynnwys yn y trefniadau rhannu data â HESA. Ni fydd y sefydliadau hyn yn defnyddio'r data at ddibenion eich adnabod chi fel unigolyn nac i wneud penderfyniadau amdanoch chi, ac eithrio fel y disgrifir ym Mhwrpas 3 isod. Efallai y bydd y sefydliadau hyn yn cadw gwybodaeth HESA am gyfnod amhenodol at ddibenion ystadegol ac ymchwil, neu am dymor sefydlog yn dibynnu ar delerau eu cytundebau rhannu data gyda HESA.

Y cyrff cyllido a rheoleiddio AU sy'n derbyn gwybodaeth nad yw'n cael ei chasglu o dan eu pŵer perthnasol, ond sydd ei hangen ar gyfer eu swyddogaethau, yw:

- Office for Students (er enghraifft, mae gan yr OfS bŵer i gasglu gwybodaeth gan ddarparwyr yn Lloegr, ond mae arnynt angen gwybodaeth hefyd am ddarparwyr mewn rhannau eraill o'r DU ar gyfer eu swyddogaeth gyhoeddus)
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Cyllido'r Alban
- Adran yr Economi

Adrannau addysg yn Lloegr ac yn y gweinyddiaethau datganoledig:

- Yr Adran Addysg
- Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth yr Alban

Cyrff eraill gyda swyddogaethau cyhoeddus yn gysylltiedig ag addysg:

- Yr Adran ar gyfer Busnes, Ynni a'r Strategaeth Ddiwydiannol
- UK Research and Innovation
- Yr Asiantaeth Rheoleiddio Addysgu
- Cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r sefydliadau sy'n gweithio â hwy e.e. Health Education England a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- UCAS

ac unrhyw gyrff olynol. Mae'n bosib y bydd rhagor o Reolyddion yn cael eu hychwanegu at y rhestr o bryd i'w gilydd – darllenwch y fersiwn ar-lein o'r hysbysiad hwn yn https://www.hesa.ac.uk/fpn.

**Defnyddiau eraill o ddata a enwir**

Efallai y caiff eich gwybodaeth HESA ei defnyddio gan rai sefydliadau sydd hefyd yn Rheolyddion sy'n cwblhau tasgau ystadegol ac ymchwil er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol heb fod yn gysylltiedig ag addysg. Gall defnyddiau o'r fath gynnwys y canlynol:

- Llunio ystadegau mewn perthynas â phoblogaeth y DU ac at ddiben ymchwil ystadegol, a wneir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).
- Llunio ystadegau ac ymchwil ystadegol a wneir gan Gofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon.
- Monitro gwariant cyhoeddus gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Mae'n bosib y bydd y rhestr uchod o sefydliadau a fydd efallai'n cael eich gwybodaeth HESA yn newid dros amser. Er enghraifft, mae HESA yn ceisio lleihau'r baich ar ddarparwyr addysg uwch drwy annog sefydliadau eraill sy'n casglu gwybodaeth am fyfyrwyr yn uniongyrchol gan ddarparwyr addysg uwch ar hyn o bryd i gasglu a derbyn gwybodaeth drwy HESA. Bydd y rhestr uchod yn cael ei diweddaru ar wefan HESA yn https://www.hesa.ac.uk/fpn o bryd i'w gilydd, a bydd angen i chi fonitro'r ddolen hon eich hun os ydych chi eisiau bod yn ymwybodol o'r newidiadau.

**Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 2**

Mae'n rhaid prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 2 er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (Gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (Gweler Erthygl 89 GDPR).

Mae'n rhaid prosesu Categorïau Arbennig o ddata at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) y GDPR yn seiliedig ar y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998, Deddf yr Economi Ddigidol 2017 neu ddeddfwriaeth ddilynol gyfatebol, neu at y dibenion ymchwil eraill sy'n dod o dan Erthygl 9(2)(j) GDPR.

Hefyd gall prosesu Categorïau Arbennig o ddata fod yn angenrheidiol am resymau'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 neu ddeddfwriaeth ddilynol gyfatebol (gweler Erthygl 9(2)(g) GDPR).

**Pwrpas 3 – Defnyddiau gweinyddol**

Gall eich data a enwir gael eu prosesu gan HESA at ddibenion gweinyddol neu gan awdurdodau cyhoeddus ar gyfer canfod neu erlyn am dwyll. Gall y defnyddiau hyn o'ch gwybodaeth HESA arwain at wneud penderfyniadau amdanoch chi.

**Defnyddiau gweinyddol HESA**

**Gwasanaeth gwirio HUSID** – Os ydych chi wedi cael eich cynnwys yn y cofnod Myfyrwyr yn ystod y blynyddoedd blaenorol, efallai y bydd eich darparwr addysg uwch cyfredol yn defnyddio gwasanaeth gwirio HESA i ddilysu eich cyfeirnod adnabod fel myfyriwr (a elwir yn HUSID). Mae mwy o wybodaeth am wasanaeth gwirio HESA ar gael yma: https://www.hesa.ac.uk/support/tools-and-downloads/husid.

**Newid darparwr yn ystod eich astudiaethau addysg uwch** – Os byddwch, wrth astudiogyda darparwr addysg uwch, yn trosglwyddo i ddarparwr addysg uwch arall neu os yw eich cwrs yn cael ei gyflwyno mewn cydweithrediad â darparwr addysg uwch arall, efallai y bydd angen i HESA rannu gwybodaeth amdanoch chi gyda'ch darparwr newydd i sicrhau eich bod yn cael eich cynnwys yn gywir yn y cyflwyniad data perthnasol i HESA. Efallai y bydd gofyn i HESA hysbysu'ch darparwr blaenorol hefyd eich bod bellach yn astudio yn rhywle arall.

**Defnyddiau gweinyddol Allanol**

Wrth arfer eu hawdurdod swyddogol efallai y bydd yn angenrheidiol i'r cyrff cyllido a rheoleiddio addysg uwch yn y DU sydd wedi'u rhestru ym Mhwrpasau 1 a 2 ddefnyddio eich gwybodaeth HESA sy'n cael ei hanfon ymlaen atynt ar gyfer Pwrpasau 1 a 2 i'ch adnabod chi ac i wneud penderfyniadau amdanoch chi fel unigolyn at y dibenion canlynol yn unig:

**Canfod ac atal twyll** – Efallai y caiff eich gwybodaeth HESA ei defnyddio i archwilio hawliadau am gyllid cyhoeddus a chyllid myfyrwyr, ac i ganfod ac atal twyll. Gall hyn gynnwys rhannu eich gwybodaeth â Rheolyddion eraill (er enghraifft, y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, Pearsons Education).

**Astudiaeth flaenorol –** Os yw eich darparwr addysg uwch yn Lloegr: Efallai y bydd The Office for Students yn rhannu eich cofnodion addysg blaenorol gyda'r darparwr hwn, gan gynnwys gwybodaeth HESA a gyflwynwyd gan ddarparwyr addysg uwch eraill, i benderfynu ar natur unrhyw astudiaeth addysg uwch flaenorol, gan gynnwys eich cymwysterau presennol. Gall y rhain gael eu defnyddio i wneud penderfyniadau am y ffioedd y bydd yn ofynnol i chi eu talu, y gefnogaeth sydd ar gael i chi neu argaeledd lle i chi astudio gyda darparwr addysg uwch. Efallai y bydd yr Office for Students hefyd yn rhannu'r ffaith eich bod yn astudio gyda darparwr newydd gyda'ch darparwr blaenorol.

At y dibenion hyn efallai y caiff eich gwybodaeth HESA ei chadw ar wahân (yn ychwanegol at gael ei chadw mewn setiau data ar gyfer Pwrpas 1) a'i chadw am gyn hired ag sydd angen at ddibenion canfod neu erlyn am dwyll ac unrhyw ddibenion cyfreithiol neu archwilio cysylltiedig.

**Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 3**

Mae'n rhaid prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 3 er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (Gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR).

**Pwrpas 4 - Cyhoeddiadau HESA**

Mae HESA yn cyhoeddi ystadegau am fyfyrwyr mewn addysg uwch.

Rhan o rôl HESA yw cynhyrchu a chyhoeddi gwybodaeth am addysg uwch er budd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddiadau Ystadegau Swyddogol a Chenedlaethol (https://uksa.statisticsauthority.gov.uk/about-the-authority/uk-statistical-system/types-of-official-statistics/) a gwybodaeth am fusnes ar-lein yn ogystal â gwasanaethau ymchwil.

Wrth gynhyrchu'r deunydd hwn i'w gyhoeddi, mae HESA yn defnyddio ei adnodd rheoli datgelu, Methodoleg Crynhoi Safonol HESA, i sicrhau nad oes unrhyw Ddata Personol wedi'u cynnwys ac nad oes modd adnabod unigolion gyda'r deunydd a gyhoeddir.

**Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 4**

Mae'n rhaid prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 4 er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (Gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (Gweler Erthygl 89 GDPR).

Mae'n rhaid prosesu Categorïau Arbennig o ddata personol at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) yn seiliedig ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998 (Gweler Erthygl 9(2)(j) GDPR).

**Pwrpas 5 - Cyfle cyfartal, ymchwil, newyddiaduraeth a phrosesu arall at ddibenion ystadegol ac ymchwil**

Defnyddir gwybodaeth HESA ar gyfer ymchwil i addysg uwch a phoblogaeth y myfyrwyr. Gall yr ymchwil fod yn academaidd, masnachol, newyddiadurol neu am resymau personol. Mae HESA yn gwahardd datgelu pwy yw myfyrwyr unigol gan y rhai sy'n cynnal yr ymchwil hwn ac nid yw gwybodaeth yn cael ei rhannu ar sail enw.

Hefyd caiff HESA a'r rheolyddion eraill (gweler Pwrpasau 1 a 2) gyflenwi gwybodaeth i drydydd partïon os oes budd cyfreithlon o wneud hynny at ddibenion ystadegol ac ymchwil. Mae esiamplau o'r defnydd ar gyfer y pwrpas hwn yn cynnwys y canlynol:

- Darparu gwybodaeth i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr
- Monitro cyfleoedd cyfartal
- Ymchwil - Gall hwn fod yn ymchwil academaidd, ymchwil masnachol neu ymchwil ystadegol arall os oes budd i'r cyhoedd
- Newyddiaduraeth – Os yw'r cyhoeddiad perthnasol o fudd i'r cyhoedd e.e. tablau cynghrair
- Creu a gweithredu adnoddau dadansoddi, er enghraifft, Heidi Plus.

Mae'r defnyddwyr y cyflenwir gwybodaeth iddynt efallai ar gyfer Pwrpas 5 yn cynnwys y canlynol:

- Cyrff y sector addysg uwch gan gynnwys Jisc.
- Darparwyr addysg uwch
- Ymchwilwyr a myfyrwyr academaidd
- Sefydliadau masnachol (e.e. cwmnïau recriwtio, darparwyr tai, cyflogwyr graddedigion)
- Undebau
- Sefydliadau anllywodraethol ac elusennau
- Cyrff rheoli lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Newyddiadurwyr

Cyflenwir yr wybodaeth a gyflenwir gan HESA i drydydd partïon oddi mewn i Bwrpas 5 o dan gontractau sy'n dweud ei bod yn ofynnol peidio â gallu adnabod unigolion oddi wrth yr wybodaeth a gyflenwir ac mae hyn hefyd yn golygu na allant ei defnyddio i wneud penderfyniadau amdanoch chi.

Mae copi o gytundeb presennol HESA ar gyfer cyflenwi gwybodaeth ar gael yn www.hesa.ac.uk/services/custom/data/timescales-costs. Mae pob cytundeb yn nodi'r cyfnod ar gyfer prosesu'r data. Blwyddyn yw'r cyfnod hwn fel rheol ond gall fod yn hirach os oes angen, ar gyfer y pwrpas ymchwil penodol. Asesir pob cais am wybodaeth HESA o dan Bwrpas 5 am ei gydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data a'i gysondeb â'r hysbysiad casglu hwn. Mae HESA yn sicrhau mai dim ond yr wybodaeth HESA ofynnol ar gyfer y pwrpas ymchwil penodol a gyflenwir i ddefnyddwyr. Os yw'r wybodaeth a gyflenwir yn cael ei chyhoeddi, rhaid defnyddio Methodoleg Gron HESA neu reolaeth ddatgelu gyfatebol i sicrhau na ellir adnabod unigolion o'r deunydd cyhoeddedig ac nad yw'n gyfystyr â Data Personol.

Mae copi o gytundeb cyfredol HESA ar gyfer mynediad i Heidi Plus ar gael yma. Mae pob cytundeb yn manylu ar y pwrpas ar gyfer prosesu'r data.

Os ydych chi'n fyfyriwr gyda darparwr yn Lloegr, efallai y bydd gwybodaeth HESA yn cael ei chysylltu â gwybodaeth ysgol a/neu goleg addysg bellach a'i rhoi i ymchwilwyr naill ai drwy gyflenwi'n uniongyrchol i sefydliad yr ymchwilydd neu drwy Wasanaeth Ymchwil Diogel y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Darperir y rhannu ymlaen hwn i ymchwilwyr gan Wasanaeth Rhannu Data'r Adran Addysg. Gellir gofyn am gopïau o'r 'Cytundeb ar gyfer Cyflenwi Data Cysylltiedig' a'r 'Cytundeb ar gyfer Gwneud Data Cysylltiedig' sydd ar gael yng Ngwasanaeth Ymchwil Diogel y Swyddfa Ystadegau Gwladol gan data.sharing@education.gov.uk.

Efallai y bydd eich gwybodaeth HESA yn gysylltiedig â data ysgol, coleg, cyflogaeth, treth a budd-daliadau gan yr Adran Addysg a gall yr Adran Addysg ei rhannu ag ymchwilwyr drwy Wasanaeth Ymchwil Diogel y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae mwy o wybodaeth ar gael o https://www.gov.uk/government/publications/longitudinal-education-outcomes-study-how-we-use-and-share-data.

Gwneir y prosesu oddi mewn i Bwrpas 5 gan HESA. Hefyd efallai y bydd Rheolyddion eraill (a restrir o dan Bwrpas 1 uchod) yn prosesu data ar gyfer y pwrpas hwn os yw hynny'n angenrheidiol er mwyn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus.

**Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 5**

Mae'n rhaid prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 5 er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (Gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR).

Hefyd efallai y bydd rhaid prosesu at ddibenion budd cyfreithlon HESA wrth ddosbarthu gwybodaeth addysg uwch, neu fuddiannau cyfreithlon trydydd partïon wrth gynnal ymchwil ym maes addysg uwch (Gweler Erthygl 6(1)(f) GDPR).

Yn y naill achos a'r llall mae prosesu eich gwybodaeth HESA yn angenrheidiol at ddibenion ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) GDPR.

Mae'n rhaid prosesu Categorïau Arbennig o ddata at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) yn seiliedig ar y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998 (Gweler Erthygl 9(2)(j) GDPR).

**Pwrpas 6 – Myfyrwyr ar gyrsiau Cymhwyster Meddygol Sylfaenol yn unig**

Os ydych chi'n fyfyriwr sy'n astudio ar gyfer Cymhwyster Meddygol Sylfaenol (PMQ) bydd HESA yn casglu data ychwanegol amdanoch chi ar gais y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), a fydd yn eu defnyddio at y dibenion a nodir isod. I ddechrau, bydd HESA yn ymgymryd â'r casglu hwn fel prosesydd. Os bydd HESA yn dod yn Rheolydd ar y data hyn, gall HESA hefyd ddefnyddio'r data hyn at bwrpasau 2 i 5 ac 8.

Mae'r GMC yn gorff sydd â chyfrifoldebau statudol am addysgu, hyfforddi a rheoleiddio ymarferwyr meddygol yn y DU. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u datgan yn Neddf Feddygol 1983. Mae mwy o wybodaeth am sut mae'r GMC yn defnyddio data personol ar gael yma https://www.gmc-uk.org/privacy-and-cookies.

Bydd y GMC yn defnyddio data at y dibenion canlynol:

- Hybu, cynnal a gwella safonau uchel o addysg a hyfforddiant meddygol yn y DU
- Cynnal ymchwil a fydd yn galluogi i'r GMC gydlynu polisi ar draws pob cam mewn addysg feddygol, gan gynnwys dewis i ysgol feddygol, addysg israddedig, addysg ôl-raddedig, ac arfer meddygol. Dim ond gyda mesurau o ansawdd uchel mewn perfformiad ysgol mae hyn yn bosib. Mae mwy o wybodaeth am sut mae GMC yn defnyddio'ch data mewn prosiectau ymchwil i'w gweld yma: www.ukmed.ac.uk/faq#for_medical_students
- Ni fydd y GMC yn defnyddio data sydd wedi'u casglu gan HESA i wneud penderfyniadau am fyfyrwyr neu feddygon unigol.

**Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 6**

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 6 – mae'r rhain yn cynnwys defnyddio data personol gan HESA a'r GMC fel Rheolyddion data:

Mae prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 6 yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gwblheir er budd cyhoeddus neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (gweler Erthygl 89 GDPR).

Mae'n rhaid prosesu Categorïau Arbennig o ddata at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) yn seiliedig ar y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998, Deddf yr Economi Ddigidol 2017 neu ddeddfwriaeth olynol gyfatebol, neu ar gyfer unrhyw ddibenion ymchwil eraill sy'n berthnasol i Erthygl 9(2)(j) GDPR.

**Pwrpas 7 – Myfyrwyr y mae eu gwybodaeth yn cael ei dychwelyd i HESA ar sail wirfoddol**

Os ydych chi'n fyfyriwr sy'n astudio gyda darparwr addysg uwch sydd wedi dewis dychwelyd eich data yn wirfoddol bydd HESA yn defnyddio'r data hyn ar gyfer pwrpasau 2 i 5 ac 8. Os yw'r pwrpas hwn yn berthnasol mewnperthynas â'ch darparwr addysg uwch, dylai eich darparwr roi gwybod i chi am hyn.

Weithiau mae amgylchiadau darparwr AU yn newid fel nad yw'n orfodol iddo gyflwyno data myfyrwyr i HESA. Yn yr achos hwn, efallai y bydd y darparwr AU a HESA (yn dilyn ymgynghori â Chwsmeriaid Statudol perthnasol) yn cytuno i barhau i ganiatáu i'r darparwr ddychwelyd data ar gyfer ei fyfyrwyr os credir bod hyn er budd y cyhoedd. Os bydd statws y darparwr yn newid fel ei bod yn orfodol cyflwyno data myfyrwyr i HESA, Bydd yn cael ei gasglu o dan Bwrpas 1.

**Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 7**

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 7 – mae'r rhain yn cynnwys defnyddio data personol gan HESA a'r sefydliadau sy'n derbyn y data o dan Bwrpas 2:

Mae prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 7 yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gwblheir er budd cyhoeddus neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (Gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (Gweler Erthygl 89 GDPR).

Mae'n rhaid prosesu Categorïau Arbennig o ddata at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) yn seiliedig ar y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998, Deddf yr Economi Ddigidol 2017 neu ddeddfwriaeth olynol gyfatebol, neu ar gyfer unrhyw ddibenion ymchwil eraill sy'n berthnasol i Erthygl 9(2)(j) GDPR.

Hefyd efallai y bydd rhaid prosesu Categorïau Arbennig o ddata am resymau'n ymwneud â budd cyhoeddus sylweddol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 neu ddeddfwriaeth olynol gyfatebol (gweler Erthygl 9(2)(g) GDPR).

**Pwrpas 8 - Defnydd gan HESA i gyflawni ei rôl fel corff data dynodedig ar gyfer Lloegr a'i swyddogaethau cyfatebol ar gyfer gwledydd eraill y Deyrnas Unedig.**

Mae eich gwybodaeth HESA yn cael ei phrosesu gan HESA i gasglu, crynhoi, cyhoeddi a rhannu data yn unol â'r hysbysiad hwn. Bydd y prosesu hwn yn cynnwys prosesu at ddibenion fel dadansoddi ac ymchwilio i: adolygu a gwella ansawdd data; manwl gywirdeb data; a'r defnyddioldeb; cyd-destun a chyfoeth y data / dadansoddiad y mae HESA yn ei gynhyrchu. Bydd hefyd yn cael ei phrosesu i'w dadansoddi ac i ymchwilio i ganlyniadau addysg.

Mae HESA yn prosesu eich gwybodaeth HESA fel rhan o set ddata ystadegol fwy ar gyfer y pwrpasau uchod i wneud y canlynol:

- Creu meysydd sy'n deillio i gyfoethogi cyfleustodau data a gwybodaeth am ddata HESA.
- Gosod y defnydd o ddata HESA yn ei gyd-destun.
- Ymchwilio a deall cynnydd trwy addysg uwch. Gall hyn gynnwys cysylltu ag ymatebion i'r arolwg a ddarperir yn y dyfodol fel rhan o'r arolwg Canlyniadau Graddedigion: https://cy.graduateoutcomes.ac.uk/ ac â setiau data eraill, er enghraifft data coleg.
- Data sicrhau ansawdd a chael gwared ar anghysonderau a gwella manwl gywirdeb data. Gall hyn gynnwys prosesu data personol yng nghyd-destun darparu hyfforddiant pwrpasol i ddarparwyr addysg uwch i ddarparu dadansoddiad a gwella ansawdd data.
- Ymchwil i ansawdd data a dibyniaeth y sector ar ddata cyfresi amser.

- Mudo data i'r model data Data Futures newydd i'w defnyddio ym Mhlatfform Data newydd HESA a fydd yn helpu i wella manwl gywirdeb y data a fydd yn cael eu casglu gan HESA. I gael mwy o wybodaeth am y gwaith hwn, edrychwch ar: https://www.hesa.ac.uk/innovation/data-futures/alpha-phase
- Gwirio yn erbyn gwybodaeth a gyflwynwyd i UCAS i wella manwl gywirdeb data. Am fwy o wybodaeth edrychwch ar https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/ucas-data.
- Adolygu sut gellir gwneud newidiadau a gwelliannau i brosesau HESA gan gynnwys systemau a meddalwedd a'r goblygiadau fyddai gan hyn o ran y data maent yn eu cynhyrchu.

**Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 8**

Mae prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 8 yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gwblheir er buddcyhoeddus neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (Gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (Gweler Erthygl 89 GDPR).

Mae'n rhaid prosesu Categorïau Arbennig o ddata at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) ynseiliedig ar y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998, Deddf yr Economi Ddigidol 2017 neu ddeddfwriaeth olynol gyfatebol, neu ar gyfer unrhyw ddibenion ymchwil eraill sy'n berthnasol i Erthygl 9(2)(j) GDPR.

Hefyd efallai y bydd rhaid prosesu Categorïau Arbennig o ddata am resymau'n ymwneud â budd cyhoeddus sylweddol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 neu ddeddfwriaeth olynol gyfatebol (gweler Erthygl 9(2)(g) GDPR).

**Cysylltu eich gwybodaeth HESA â gwybodaeth arall**

Weithiau cysylltir gwybodaeth HESA â ffynonellau data eraill i alluogi ymchwil a dadansoddi manylach.

Fel y dynodir uchod, os bydd HESA a sefydliadau o dan Bwrpasau 1 a 2 yn defnyddio gwybodaeth HESA, gall hyn gynnwys cysylltu gwybodaeth HESA a enwir neu wybodaeth ffugenwol â gwybodaeth arall at ddibenion ymchwil. Ymhlith yr enghreifftiau mae cysylltu â:

- Data'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr - i osod canlyniadau'r arolwg hwn yn eu cyd-destun
- Data Ysgol ac Addysg Bellach – i ymchwilio i gynnydd i addysg uwch
- Data Cwmnïau Benthyciadau Myfyrwyr – i ymchwilio i'r defnydd o gyllid myfyrwyr
- Data cyrff dyfarnu cymwysterau – i ymchwilio i werth a chanlyniadau cymwysterau
  Data cyflogaeth, treth a budd-daliadau – i ymchwilio i gyflogau graddedigion a deall canlyniadau addysg yn well (Canllawiau ar y defnydd o gofnodion HESA wedi'u cyfateb i dreth, budd-daliadau a chyflogaeth ar gael yn: www.gov.uk/government/publications/longitudinal-education-outcomes-study-how-we-use-and-share-data)
- Data UCAS - i ddeall cyfraddau mynediad i addysg uwch
- Data UCAS a'r Uned Gwasanaethau Gyrfa Addysg Uwch (HECSU) – i gyflwyno gwasanaeth gwybodaeth i gefnogi myfyrwyr a darpar fyfyrwyr i wneud dewisiadau doeth ac effeithiol am astudio a gyrfaoedd.

**Myfyrwyr meddygol** - Os ydych chi'n fyfyriwr meddygol, bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei chynnwys ym mas data ymchwil UKMED (www.ukmed.ac.uk) efallai. Y Cyngor Meddygol Cyffredinol yw'r Rheolydd ar gyfer y bas data hwn a ddefnyddir i ymchwilio i gynnydd meddygon drwy eu haddysg a'u hyfforddiant.

**Ehangu Rhaglenni Cyfranogiad** - Os ydych chi wedi cymryd rhan mewn rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch, efallai y bydd eich Gwybodaeth HESA yn cael ei chysylltu â data a gedwir gan y rhaglenni hyn at ddibenion ymchwil. Gall hyn gynnwys Traciwr Mynediad Addysg Uwch (HEAT) a Phartneriaeth Ymchwil a Gwerthuso Ehangu Cyfranogiad Dwyrain Canolbarth Lloegr (EMWPREP).

**Gwybodaeth cyrchfannau i ysgolion a cholegau** – Os ydych chi wedi mynychu ysgol neu goleg yng Nghymru neu Loegr, gallai sefydliadau sy'n dod o dan Bwrpasau 1 a 2 ddatgelu data cysylltiedig â'r ysgol neu'r coleg diwethaf y buoch ynddo (neu'r corff olynol) ac i Ofsted neu Estyn wrth arfer eu hawdurdod swyddogol, i'w galluogi i asesu canlyniadau addysg uwchradd.

Pan fydd HESA yn darparu gwybodaeth o'ch gwybodaeth HESA i drydydd partïon o dan Bwrpas 5, gall y broses a ganiateir o brosesu gwybodaeth gan drydydd parti gynnwys cysylltu gwybodaeth HESA â gwybodaeth arall a gedwir gan y trydydd parti. Ystyrir caniatâd fesul achos. Dim ond pan fo'r cysylltu ar gyfer ydibenion a amlinellir ym Mhwrpas 5 y rhoddir y caniatâd hwn, ac yn amodol ar y gofyniad i beidio â chysylltu er mwyn adnabod unigolion.

**Cofnod Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon ("HCA") HESA**

Cyflwynir gwybodaeth am fyfyrwyr hyfforddiant athrawon yn Lloegr i'r Adran ar gyfer Addysg (DfE) a'r Asiantaeth Rheoleiddio Addysgu (TRA) drwy gyfrwng HESA.

Os ydych chi ar gwrs HCA gyda darparwr addysg uwch yn Lloegr, bydd HESA yn casglu gwybodaeth ychwanegol amdanoch chi ac yn ei rhoi i'r DfE a TRA. Cyrsiau HCA yw'r rhai sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC) neu Statws Athro Blynyddoedd Cynnar (SABC).

Mae TRA yn asiantaeth weithredol yn yr Adran ar gyfer Addysg (DfE) ac at ddibenion y GDPR, mae'r DfE a HESA yn Rheolyddion ar wahân ar y cofnod HCA.

Bydd DfE yn prosesu eich data personol wrth arfer ei awdurdod swyddogol, sef cyllido, gweinyddu a monitro cynlluniau HCA yn Lloegr. Bydd DfE yn defnyddio eich data i sefydlu cofnod ar System Rheoli Data'r Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (DTTP) ac yn cofrestru manylion eich cwrs a'r cwblhau wedyn.

Bydd TRA yn prosesu eich data personol wrth arfer ei awdurdod swyddogol, sef dyfarnu SAC a SABC a chynnal y rhestr o athrawon yn Lloegr. Bydd TRA yn defnyddio eich data i sefydlu cofnod yn y bas data o athrawon ac yn neilltuo rhif cyfeirio athro (TRN) i chi. Bydd TRA yn cysylltu â chi i gadarnhau eich TRN ac unrhyw ddyfarniad dilynol o SAC ac fel rhan o'ch blwyddyn gyflwyno statudol.

Efallai y bydd DfE a TRA yn rhannu data personol gyda'ch darparwr ac, os yw'r gyfraith yn caniatáu neu os oes gofyniad cyfreithiol i rannu, ei bartneriaid a'i gontractwyr ar gyfer y pwrpas hwn ac efallai y bydd yn eu cysylltu â ffynonellau eraill o wybodaeth amdanoch chi. Mae'r partneriaid yn cynnwys cyflogwyr athrawon, asiantaethau cyflogi athrawon, Ofsted, Pensiynau Athrawon Capita ac asiantaethau gweithredol eraill y DfE.

**Arolygon myfyrwyr a myfyrwyr sy'n gadael**

Efallai y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am eich profiad fel myfyriwr a'ch gweithgareddau ar ôl i chi raddio fel rhan o arolygon cenedlaethol.

Gall eich manylion cyswllt gael eu trosglwyddo i gontractwyr arolygu i gynnal yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (NSS), arolygon eraill o farn myfyrwyr am eu hastudiaethau, ac arolygon o gyllid myfyrwyr, ar ran rhai o'r sefydliadau a restrir o dan Bwrpasau 1 a 2 uchod.

Ar ôl i chi raddio, efallai y cysylltir â chi gan ofyn i chi lenwi un neu fwy o arolygon ar ganlyniadau addysg uwch a'ch gweithgareddau ar ôl graddio. Defnyddir yr arolygon hyn i greu ystadegau i fodloni diddordeb y cyhoedd mewn canlyniadau addysg uwch. Efallai y defnyddir gwybodaeth gan drydydd partïon (fel eich rhiant, neu eich darparwr os ydych chi'n astudio ymhellach) i gwblhau adrannau o'r arolygon os nad oes modd cysylltu â chi. Efallai y cynhelir yr arolygon gan eich darparwr neu gan sefydliad ar gontract ar gyfer y pwrpas hwnnw.

Bydd gan eich darparwr fanylion cyswllt ar eich cyfer ar ôl i chi raddio er mwyn gallu cysylltu â chi i lenwi'r arolwg Canlyniadau Graddio. Efallai y caiff eich manylion cyswllt eu rhoi i HESA a/neu'r sefydliad(au) ar gontract gan HESA i gynnal arolwg Canlyniadau Graddedigion. Dim ond ar gyfer yr arolwg fydd contractwr HESA yn defnyddio eich manylion cyswllt a bydd yn eu dileu pan fydd yr arolwg wedi cau. Efallai y bydd HESA yn cadw eich manylion cyswllt ar gyfer arolygon canlyniadau graddedigion pellach os yw'r rhain o fudd i'r cyhoedd. Bydd eich ymatebion i'r arolwg Canlyniadau Graddedigion ar gael i'ch darparwr ac efallai y bydd eich darparwr yn dewis ychwanegu cwestiynau at yr arolwg, ar gyfer ei ddefnydd ei hun.

Bydd rhagor o wybodaeth am breifatrwydd a diogelu data'n cael ei darparu os cysylltir â chi ar gyfer unrhyw rai o'r arolygon hyn. Mae'r wybodaeth preifatrwydd ar gyfer Canlyniadau Graddedigion ar gael ar y wefan Canlyniadau Graddedigion. Hefyd efallai y cysylltir â chi fel rhan o archwiliad i weld bod yr arolwg wedi cael ei gynnal yn briodol.

**Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth i gynnal arolygon cenedlaethol**

Mae'n rhaid prosesu eich gwybodaeth i gynnal yr arolygon myfyrwyr a graddedigion er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (Gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (Gweler Erthygl 89 GDPR).

**Rhagor o wybodaeth am y rhai sy'n derbyn eich gwybodaeth HESA**

Mae HESA yn cyhoeddi cofrestr sy'n cynnwys gwybodaeth am y derbynyddion yr ydym yn datgelu data iddynt at ddibenion ystadegol. Mae'r gofrestr fyw i'w gweld yma: https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/register.

**Eich hawliau**

Mae deddfwriaeth diogelu data'n rhoi hawliau i chi dros eich data personol. Mae'r rhain yn cynnwys hawliau i wybod pa wybodaeth sy'n cael ei phrosesu amdanoch chi a sut mae'n cael ei phrosesu. Rhaid i HESA ac unrhyw sefydliad arall sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch pam neu sut mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu gadw at yr hawliau hyn.

Mae gennych hawl i gael gwybod sut mae eich data personol yn cael eu defnyddio. Mae'r hysbysiad casglu hwn gan HESA yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn disgrifio'n fanwl gywir sut mae eich gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio. Gellir diweddaru'r hysbysiad hwn o bryd i'w gilydd, er enghraifft, pan sefydlir deddfwriaeth newydd, neu pan weithredir polisïau newydd gan yr awdurdodau cyhoeddus sydd wedi'u rhestru o dan Bwrpasau 1 a 2. Bydd y fersiwn diweddaraf i'w weld bob amser yn www.hesa.ac.uk/fpn.

Am ragor o wybodaeth am ddiogelu data, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer Swyddog Diogelu Data HESA, ewch i www.hesa.ac.uk/dataprot. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am sut mae eich gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio, cysylltwch â data.protection@hesa.ac.uk.

O dan y GDPR mae gennych hawl i fynediad at eich gwybodaeth bersonol a yr hawl i gywiro gwybodaeth anghywir; yr hawl i ddileu; cyfyngu ar brosesu; a gwrthwynebu prosesu. Mae'r hawliau hyn yn gyfyngedig o dan amgylchiadau penodol gan trwy eithriadau a gynhwysir yn y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018, lle mae data'n cael eu prosesu at ddibenion ymchwil neu ystadegol yn unig. Os ydych yn credu bod problem gyda'r ffordd mae HESA yn trin eich data, mae gennych hawl igwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: ico.org.uk/.

**Trosglwyddo data i wledydd eraill**

Efallai y bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei throsglwyddo i wledydd y tu allan i'r DU a'r Undeb Ewropeaidd at y dibenion a ddisgrifir uchod.

Dim ond i wledydd yr aseswyd bod eu deddfau diogelu data yn ddigonol, neu lle mae mesurau diogelwch digonol ar waith i amddiffyn eich gwybodaeth HESA, y bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei throsglwyddo.